# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)-04-09 Papur 2 : 2 Mawrth 2009

### Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

Mae’r papur hwn yn rhestru’r wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau a ystyriwyd yn flaenorol gan y pwyllgor. Daeth llawer o’r wybodaeth ddiweddaraf hyn i law ar ffurf gohebiaeth. Os yw’n berthnasol, atodir yr ohebiaeth i’r papur hwn fel PET(3) 04-09 Papur 2A.

### (i) P-03-107 Papur dyddiol Cymraeg

### Geiriad y ddeiseb

'Galwn ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gymryd camau brys i wireddu’r addewid i sefydlu papur dyddiol Cymraeg a gyhoeddwyd yn 'Cymru'n Un’:

'Byddwn yn cynyddu'r cyllid a'r gefnogaeth a roddir i gylchgronau a phapurau newydd Cymraeg, gan gynnwys sefydlu papur newydd dyddiol Cymraeg'.

Galwn am gyhoeddiad newydd gan y llywodraeth bod swm digonol yn cael ei neilltuo’n benodol ar gyfer sefydlu papur cenedlaethol annibynnol yn Gymraeg, yn unol â’r ymchwil sydd wedi ei wneud gan sefydliadau profiadol yn y maes’.

**Linc i’r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-107.htm

**Cynigwyd y ddeiseb gan:** Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

**Nifer y llofnodion:** 1,000+

**Ystyriwyd yn flaenorol gan y pwyllgor ar:** 10 Ebrill 2008, 11 Mehefin 2008, 23 Gorffennaf 2008, 2 Hydref 2008, 4 Rhagfyr 2008 a 27 Ionawr 2009.

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Ysgrifennodd y Pwyllgor Menter a Dysgu at y pwyllgor. The Enterprise and Learning Committee has written to the Committee. Atodir copi o’r ateb hwn fel rhan o PET(3) 04-09 Papur 2A.

### (ii) P-03-123 Ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu

### Geiriad y ddeiseb

'Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i’w gwneud yn haws i awdurdodau unedol ysgwyddo’r cyfrifoldeb dros ffyrdd heb eu mabwysiadu gan leihau’r byrdwn ar dalwynebwyr.’

**Linc i'r ddeiseb:** <http://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-123.htm>

**Cynigwyd y ddeiseb gan:** Y Cynghorydd Keith Davies

**Nifer y llofnodion:** 113

**Ystyriwyd yn flaenorol gan y pwyllgor ar:** 8 Mai 2008, 25 Mehefin 2008, 2 Hydref 2008, 6 Tachwedd 2008 a 13 Ionawr 2009.

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Ar 6 Tachwedd 2008, penderfynodd y pwyllgor ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog i ofyn a yw’n bwriadu cyflwyno canllawiau ar fabwysiadu ffyrdd hŷn sydd heb eu mabwysiadu. Mae’r Dirprwy Brif Weinidog wedi cyflwyno ateb a cheir copi o’i ateb fel rhan o PET(3) 04-09 Papur 2A.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi ysgrifennu at y pwyllgor hefyd. Atodir copïau o’r atebion hyn hefyd fel rhan o PET(3) 04-09 Papur 2A.

### (iii) P-03-134 System anrhydeddau i Gymru

### Geiriad y ddeiseb

'Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gyflwyno system anrhydeddau i Gymru ac y dylai system o'r fath anrhydeddu'r awdur, Jan Morris.’

**Linc i'r ddeiseb:** <http://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/eform-sign-petition-old/p-03-134.htm>

**Cynigwyd y ddeiseb gan:** Richard Owen

**Nifer y llofnodion:** 38

**Ystyriwyd yn flaenorol gan y pwyllgor ar:** 25 Mehefin 2008, 2 Hydref 2008 a 20 Tachwedd 2008, 13 Ionawr 2009, 27 Ionawr 2009 a 10 Chwefror 2009.

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Mae'r Llywydd a'r Prif Weinidog wedi ymateb i gais y pwyllgor am fwy o wybodaeth. Atodir copi o'r atebion hwn fel rhan o PET(3) 04-09 Paper 2A.

### (iv) P-03-152 Safle Cefn Mawr FlexSys Rubber Chemicals

### Geiriad y ddeiseb

'Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ymchwilio i'r amgylchiadau sy'n ymwneud â chau Safle Cefn Mawr Flexys Rubber Chemicals a chymryd unrhyw gamau y mae'n eu hystyried yn briodol yng ngoleuni ei ganfyddiadau.'

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-152.htm

**Cynigwyd y ddeiseb gan:** Chris Wilberforce

**Nifer y llofnodion:** 19

**Ystyriwyd yn flaenorol gan y pwyllgor ar:** 13 Ionawr 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi ymateb i gais y pwyllgor am fwy o wybodaeth. Atodir copi o'r ateb hwn fel rhan o PET(3) 04-09 Papur 2A

### (v) P-03-156 Dal anadl wrth gysgu

### Geiriad y ddeiseb

'Y dylai Cymru gael polisi effeithiol, cydlynol ac sydd wedi'i gyllido'n dda ar gyfer pob claf sydd ag anhwylder cysgu. Byddai hyn yn cynnwys darparu peiriannau sy'n Pwyso'n Barhaus ac yn Gadarnhaol ar y Sianel Aer (CPAP) ar gyfer dioddefwyr sydd wedi cael diagnosis o Ddal Anadl wrth Gysgu Rhwystrol (OSA).'

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-156.htm

**Cynigwyd y ddeiseb gan:** Y Welsh Sleep Apnoea Society

**Nifer y llofnodion:** 1 sefydliad

**Ystyriwyd yn flaenorol gan y pwyllgor ar:** 16 Hydref 2008, 6 Tachwedd 2008 a 13 Ionawr 2009.

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymateb i gais y pwyllgor am fwy o wybodaeth. Atodir copi o'r ateb hwn fel rhan o PET(3) 04-09 Papur 2A.

### (vi) P-03-162 Gwelliannau i'r A40 ger Llanspyddid

### Geiriad y ddeiseb

'Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i wella diogelwch ar y ffyrdd ym mhentref Llansbyddyd, ger Aberhonddu ym Mhowys, drwy weithredu mesurau i arafu'r traffig, fel gostwng y terfyn cyflymder presennol, gwella'r goleuadau ar ochr y ffordd a gwella'r arwyddion ar yr A40.'

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-162.htm

**Cynigwyd y ddeiseb gan:** Gymdeithas Trigolion Llansbyddyd

**Nifer y llofnodion:** 67

**Ystyriwyd yn flaenorol gan y pwyllgor ar:** 6 Tachwedd 2008 a 13 Ionawr 2009.

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi ymateb i gais y pwyllgor am fwy o wybodaeth. Atodir copi o'i ateb fel rhan o PET(3) 04-09 Papur 2A.

### (vii) P-03-166 Ysbyty Abertyleri a'r Cylch

**Geiriad y ddeiseb**

'Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth y Cynulliad i edrych ar fwriad y bwrdd iechyd lleol i gau Ysbyty Abertyleri a'r Cylch a rhoi sylw i'r mater.'

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-166.htm

**Cynigwyd y ddeiseb gan:** Martha Lowman

**Nifer y llofnodion:** 12

**Ystyriwyd yn flaenorol gan y pwyllgor ar:** 16 Hydref 2008, 20 Tachwedd 2008 a 27 Ionawr 2009.

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymateb i gais y pwyllgor am fwy o wybodaeth. Atodir copi o'r ateb hwn fel rhan o PET(3) 04-09 Papur 2A.

**Gwasanaeth y pwyllgor**

**Chwefror 2009**